GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (FFORDD OSGOI DDWYREINIOL HWLFFORDD, SIR BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Hwlffordd, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya dros dro ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Scotchwell hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Ffordd Aberteifi, Hwlffordd. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Mehefin 2022. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol o 08:00 o'r gloch ar 6 Mehefin hyd 06:00 o'r gloch ar 14 Gorffennaf 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A40 TRUNK ROAD (HAVERFORDWEST EASTERN BYPASS, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Haverfordwest, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the A40 trunk road that extends from its junction with the northern side of Scotchwell Roundabout to its junction with the south-eastern side of Cardigan Road Roundabout, Haverfordwest. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 6 June 2022. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate from 08:00 hours on 6 June until 06:00 hours on 14 July 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government